MANTELL GWYNEDD

Bwletin Gwybodaeth
Awst 2008

CYNHADLEDD BLYNYDDOEDD CYNNAR - SIARAD BABI 0-9 MIS

Ar **15fed o Hydref 2008**, bydd **Sgiliau Sylfaenol Cymru** a **Chynllun Twf** yn cynnal Cynhadledd Blynyddoedd Cynnar ar **Weithio Gyda'n Gilydd i Hybu Datblygiad Iaith Babi**.

Bydd y gynhadledd undydd hon, sy'n rhad ac am ddim, yn gyfle i drafod pwysigrwydd datblygiad iaith gynnar plentyn gan ymateb hefyd i'r pwyslais newydd ar ddwyieithrwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, bydd yn gyfle i gydnabod pwysigrwydd cydweithio ymysg partneriaid y blynyddoedd cynnar.

Hoffai Twf a Sgiliau Sylfaenol Cymru eich gwahodd i ymuno mewn cynhadledd arbennig a gynhelir yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar y dyddiad a nodir uchod.

Er mwyn cofrestru ar gyfer y gynhadledd a chofrestru i gael stondin cysylltwch â swyddfa Twf ar twf@cwmni-iaith.com neu ffoniwch ar 01745 585120.

Twf
Cymraeg o'r Crud
2 Languages from Day

TREFNIADAU CWYNO I BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD

Oes gan eich mudiad chi drefn cwyno i blant a phobl ifanc? Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar hyn o bryd yn gwneud darn o waith ar sustemau cwyno er mwyn gweld os oes modd datblygu neu wella ar lais sydd gan blant a phobl ifanc. Y gobaith yw y bydd un drefn gwyno yn cael ei sefydlu, er mwyn cysoni pethau i blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn gwybod pwy i droi ato.

Mae'r Bartneriaeth yn awyddus i glywed am eich trefniadau chi, felly os oes gennych chi system/au mewn lle, a fyddech cystal â danfon copi/au boed syml neu gymleth, i mi: Ann Vaughan Jones ym Mantell Gwynedd os gwelwch yn dda, fel bo modd i mi ddanfon yr holl wybodaeth ymlaen hefo'i gilydd i'r Bartneriaeth.

Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Children and Young People

WYTHNOS GWAITH IEUENCTID - TACHWEDD Iaf- 7fed

Wythnos Gwaith Ieuenctid
Tachwedd Iaf–7fed 2008

Rhowch hwb, yn rhad ac am ddim, i'ch Wythnos Gwaith Ieuenctid yn un o'r pedwar Arweinlyfrau o'r hyn sy'n digwydd a addaswyd ar gyfer eich rhanbarth. Caiff 500,000 eu hargraffu a'u dosbarthu i gartrefi ledled Cymru.

I sicrhau bod eich digwyddiad yn cael ei gynnwys yn arweinlyfrau rhanbarthol Wythnos Gwaith Ieuenctid eleni, cysylltwch â mi (**Ann Vaughan Jones: annvaughan@mantellgwynedd.com neu 01286 672626**) ar unwaith fel fy mod yn gallu danfon y ffurflen gofrestru berthnasol ymlaen i chi.

I sicrhau cywirdeb a lleihau'r posibilrwydd o wallau, rhaid i'r wybodaeth am bob digwyddiad gael ei gyflwyno ar y ffurflen dan sylw gyda phob maes wedi ei gwblhau. Gellir dychwelyd hwn fel ymgysylltiad e-bost neu ffacs.

PAPUR BRIFFIO CYNGOR DEFNYDDWYR CYMRU - MYNEDIAD AT ARIAN PAROD

Mae problemau ariannol a'r diffyg yn y dewis o ddulliau talu yn arwain at dlodi sylweddol yng Nghymru heddiw. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan **Gyngor Defnyddwyr Cymru** wedi canfod bod bywyd yn ddrutach i dros 190,000 o bobl yng Nghymru dim ond oherwydd eu bod yn talu biliau ac yn prynu nwyddau bob dydd drwy ddefnyddio arian parod. Lansiwyd yr adroddiad gan Brian Gibbons y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 7 Awst 2008 ym mhabell Blas, yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'r adroddiad llawn a rhagor o wybodaeth ar gael i'w lawrlwytho o wefan Cyngor Defnyddwyr Cymru:
http://www.wales-consumer.org.uk/index_cym.php o dan y penawdau **'Y newyddion diweddaraf'** a **'Y cyhoeddiadau diweddaraf'**.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter ag: Angharad Griffiths, Swyddog Cyfathrebu a'r Cyfryngau ar: **029 2025 5454 est. 227**

CIL DE GWYNEDD

Mae CIL de Gwynedd (Canolfan Byw'n Annibynnol) yn cynnal gweithgareddau dyddiol i bobl anabl. Maent yn anelu i gynnig cyfle hygyrch i bobl anabl ddod at ei gilydd unwaith neu ddwywaith yr wythnos i gymdeithasu ac ymlacio mewn awyrgylch gyfeillgar, ddiddorol a diogel am bris rhesymol. Mae'r ganolfan yn gobeithio cynnig gwasanaeth therapydd harddwch un diwrnod yr wythnos ynghyd a nifer o weithgareddau eraill. Mae'r ganolfan wedi ei lleoli ym Mhorthmadog ac yn darparu gwasanaeth i unrhyw un dros 18 oed (l'r rhai sydd angen gofal llawn amser, bydd rhaid dod a'ch gofalwyr eich hunain). Os ydych yn adnabod rhywun fyddai'n elwa o'r gwasanaeth ac a fyddai'n dymuno derbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â Hedd Thomas (Swyddog Datblygu, CIL De Gwynedd) ar e-bost:
cildegwynedd@googlemail.com

GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y CYNULLIAD YN CEISIO MWY O BWERAU I HELPU'R RHAI SYDD FWYAF AGORED I NIWED

Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gam arall tuag at wireddu ei hymrwymiad i haneru tlodi plant erbyn 2010 ac i ddeddfu ynghylch plant agored i niwed pan bleidleisiodd y Cynulliad (ar ddydd Mawrth 15 Gorffennaf) o blaid drafft terfynol y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Plant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant. Bydd y Gorchymyn - a gafodd ei osod gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Gwenda Thomas – yn awr yn cael ei drafod yn San Steffan. Os bydd y ddau Dy yn ei gymeradwyo, bydd y Gorchymyn yn rhoi pwerau cyffredinol i'r Cynulliad ddatblygu atebion penodol i Gymru i fynd i'r afael â thlodi plant. Bydd yn cael pasio Mesurau mewn nifer o feysydd polisi, gan gynnwys lles cymdeithasol, addysg, hyfforddiant, hamdden a chwaraeon i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.
http://new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/2396095/?lang=cy

CAEL GWARED AR Y RHWYSTRAU A CHEFNOGI FFERMWYR IFANC

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd barn, sylwadau ac awgrymiadau ynglyn â'r camau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r cyfnod ymgynghori am 12 wythnos, a'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 10 Hydref 2008. Gall annog ffermwyr ifanc newydd i'r diwydiant gynnig arloesedd a brwdfrydedd, ond mae hefyd yn bwysig o ran cynnal cymunedau gwledig a diwylliant Cymru. Mae cyhoeddi'r ymgynghoriad yn bodloni ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gefnogi ffermwyr ifanc newydd, ac mae'n cynnwys cynigion ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio cyllid o £2m a fydd ar gael o 2010. **Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Gangen Ffermio Cynaliadwy ar: 01970 653 834 / 029 2082 1712.**

CYNLLUN GRANT I FUDIADAU IEUENCTID GWIRFODDOL CENEDLAETHOL (NVYO)

Mae'r Cynllun ar agor i wahodd ceisiadau newydd ar gyfer cylch ariannu 2009-12. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Mercher, 1 Hydref 2008. Mae nodiadau canllaw manwl a ffurflenni cais ar gael gan:
http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/voluntary/nvyo/?lang=cy

PARTNERIAETH AWYR AGORED GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU

Mae gan Bartneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru, drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, i fyny at £5000 o gronfa cyfalaf i glybiau awyr agored er mwyn prynu eitemau ac offer chwaraeon awyr agored newydd neu ychwanegol yn costio rhwng £1000 a £5000. Uchafswm y grant ar gyfer unrhyw gais gan glybiau Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru yw £5,000 neu £2500 ar gyfer y clybiau presennol sy'n gweithio gyda'r Bartneriaeth ar hyn o bryd. Bydd y Bartneriaeth yn ystyried ceisiadau ar y 18fed Medi a 4ydd Rhagfyr. Argymhellir eich bod yn ymgeisio o leiaf fis cyn y bwriedir dechrau'r prosiect.
Rhagor o wybodaeth ar wefan y Bartneriaeth: www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk

DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT

DYSGU GYDOL OES Y DU AR RAN CYNGOR GOFAL CYMRU - YMGYNGHORIAD - RHWYDWAITH DATBLYGU GWEITHLU PLANT A PHOBL IFANC

Dydd Iau, Medi 25ain 2008 rhwng 10am a 4pm yn Venue Cymru, Llandudno - cynhelir Ymgynghoriad ar **'Y Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc'** â'r **'Craidd Cyffredin o Wybodaeth Sgiliau a Dealltwriaeth ar gyfer y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'**. Mae'r Strategaeth yn amlinellu datblygiad gweithlu cyffredin i'r gweithlu Plant a Phobl Ifanc ar draws Cymru, ac mae'r Craidd Cyffredin wedi ei lunio i fod yn addas ar gyfer hyfforddiant a datblygu unigolion ym mhob rhan o'r gweithlu Plant a Phobl Ifanc, yn cynnwys y sector wirfoddol. Rhannwch y wybodaeth yma gyda'ch cydweithwyr a'ch partneriaid os gwelwch yn dda.
Os hoffech fynychu, gyrrwch e-bost at: **beverleybailey@lluk.org** neu **sandie.grieve@ccwales.org.uk** gan gynnig darpar fynychwyr. Bydd cyfyngiad ar rifau.

HYFFORDDIANT - CYMORTH RHIANTA (PLANT YNG NGHYMRU)

Mae rhianta cadarnhaol yn hollbwysig os yw potensial y plentyn ar gyfer datblygiad i'w gynyddu i'r eithaf. Mae Plant yng Nghymru yn anelu i hyrwyddo datblygu perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlant, gan gydnabod pwysigrwydd cael eu magu mewn amgylchedd deuluol cadarnhaol sy'n meithrin a grymuso plant. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau ac ysbryd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac argymhelliad Cyngor Ewrop ar Rianta Cadarnhaol. Gall Plant yng Nghymru gynnig y cyrsiau hyfforddiant dilynol ar Gefnogaeth Rhianta, rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2008, i staff sy'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd yn y sectorau statudol a gwirfoddol: ● **Gweithio Gyda Thadau,** ● **Defnyddio Creadigrwydd Yn y Gweithle,** ● **Byw Gyda Rhai yn eu Harddegau,** ● **Mae Mam a Dad yn Dadlau Drwy'r Amser.** Cysylltwch am fwy o fanylion: **029 2034 2434**

CYFLWYNO PECYN CYMORTH 'HELP WRTH LAW' - PLANT YNG NGHYMRU

Mae **'Sdim Curo Plant!'** yn ddiweddar wedi lansio'r **'Pecyn Cymorth Help wrth Law'**, adnodd ar y we sy'n rhoi deunyddiau i newid agweddau ac ymddygiad ar gosbi plant yn gorfforol. Trefnir seminar yn Llandudno ar 16eg Medi rhwng 2.00pm a 4.00pm i gyflwyno'r pecyn cymorth a rhoi golwg gyffredinol ar sut y medrir ei ddefnyddio o fewn eich asiantaeth neu sefydliad gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.
Am fwy o wybodaeth ewch ar wefan Plant yng Nghymru a lawrlwythwch y daflen wybodaeth a'r ffurflen archebu: **http://www.plantyngnghymru.org.uk/9977.html**
Os oes gennych ymholiad pellach, cysylltwch â Plant yng Nghymru yng Nghaerdydd ar: **029 2034 2434** os gwelwch yn dda.

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw eitem a ymddangosir neu os hoffech gynnwys eitem, cysylltwch ag:
Ann Vaughan Jones (Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc) ar: **Ffôn - 01286 672626** neu **e-bost - annvaughan@mantellgwynedd.com**
Mantell Gwynedd, 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RH